# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Dol Awel**

**Cartref Preswyl Dol Awel**
**Y Ddol**
**Abergele**
**LL22 9AW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/11/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Dol Awel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | ARA CARE SERVICE LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Gweithio tuag at y cynnig rhagweithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn dysgu Cymraeg ac mae'n cefnogi gweithwyr gofal sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg. |

## Crynodeb


Mae cartref gofal Dol Awel yn darparu gwasanaeth ar gyfer hyd at 12 o oedolion, ac mae wedi'i leoli ym mhentref bach Belgrano. ARA Care Services Limited yw'r darparwr gwasanaeth, ac Ashock Ramchandran yw'r Unigolyn Cyfrifol. Mae rheolwr y gwasanaeth hefyd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), ond mae'n absennol o'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae dirprwy reolwr yn rheoli'r gwasanaeth yn absenoldeb y rheolwr cofrestredig.

Caiff y bobl eu trin yn garedig gan weithwyr gofal gofalgar a chyfeillgar. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn adlewyrchu anghenion unigol presennol y bobl. Fodd bynnag, mae angen eu hadolygu er mwyn sicrhau y cânt eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau. Mae'r bobl yn cael budd o wasanaeth sydd wedi'i arwain gan unigolyn cyfrifol a dirprwy reolwr sy'n eu hadnabod nhw a thîm y staff yn dda. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â chefnogi'r staff drwy sicrhau bod hyfforddiant y staff yn gyfredol. Mae'r amgylchedd wedi cael budd o fuddsoddiad sylweddol o dan y darparwr gwasanaeth newydd. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn bodloni'r gofynion yn llawn mewn perthynas â darparu gweithgareddau, archwiliadau amgylcheddol, gwybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a pholisïau i arwain gweithwyr gofal.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y bobl wedi setlo a'u bod yn gyfforddus â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi; caiff yr unigolion eu trin â chwrteisi a charedigrwydd. Gwnaethom arsylwi ar gydberthnasau cadarnhaol a chynhesrwydd rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl a oedd yn byw yn y cartref. Gwelsom fod y bobl yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch lle maent yn treulio eu hamser a gyda phwy. Ar hyn o bryd, mae trefniadau ymweld yn gyfyngedig oherwydd pandemig COVID-19, ond o dan amgylchiadau arferol, gall teulu a ffrindiau'r bobl ymweld â nhw.

Caiff llesiant y bobl ei gynnal a'i wella. Mae dogfennaeth gofal yn dangos y caiff y bobl eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod asesiadau a dogfennaeth gofal yn galluogi'r bobl i gael y gofal sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae angen gwella'r cynlluniau personol drwy sicrhau eu bod yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau. Gwelsom fod y bobl yn cael gofal amserol a oedd yn cefnogi eu hannibyniaeth. Gwelsom fod bwydlen y cartref gofal yn cynnig prydau amrywiol a blasus. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym yr ymgynghorir â'r bobl ar y dewis o brydau a ddarperir. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol dogfennu hyn.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt, ac yn dilyn yr ymweliad arolygu, cawsom gadarnhad bod y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf. Mae polisi diogelu ar waith, ond byddai'n fuddiol adolygu hwn er mwyn sicrhau bod y polisi yn bodloni'r gofynion rheoliadol yn llawn.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas; fodd bynnag, mae angen cymryd camau i sicrhau bod y risgiau posibl yn yr amgylchedd yn cael eu nodi. Nodwyd bod y cartref yn gyfforddus, yn lân ac yn gartrefol. Mae'r darparwr gwasanaeth yn rhagweithiol wrth gwblhau gwelliannau amgylcheddol a mynd i'r afael â'r argymhellion sy'n gysylltiedig â'r risgiau posibl a nodwyd gan AGC fel rhan o'r arolygiad hwn.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi gan y gweithwyr gofal sydd â'r wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu'r gofal a'r cymorth cywir. Mae cynlluniau gofal ar waith ac maent yn amlinellu'r camau gweithredu y mae disgwyl i'r gweithwyr gofal eu cymryd. Caiff y risgiau a nodwyd fel rhan o'r broses o gynllunio gofal eu hategu gan asesiadau risg. Maent yn gyfredol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod cynlluniau personol y bobl yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau.

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth gofal lle y maent yn cael meddyginiaeth i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Gwnaethom gynnal archwiliad rhannol o'r ymarferion rheoli meddyginiaeth yn y cartref, a oedd wedi cadarnhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodir. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod bylchau yn hyfforddiant meddyginiaeth y gweithwyr gofal. Fodd bynnag, cawsom gadarnhad bod y gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant cyfredol ar roi meddyginiaethau yn ddiogel ers hynny. Mae polisi meddyginiaeth ar waith, ond mae angen adolygu'r polisi hwn er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn dilyn y canllawiau arferion gorau diweddaraf. Gwnaethom argymell bod angen rhoi llun o'r unigolyn ar ffeiliau'r bobl a bod angen cadw eliau a ragnodwyd yn ddiogel, a chawsom gadarnhad bod y staff wedi cymryd camau mewn perthynas â hyn ar unwaith.

Dywedodd y bobl wrthym, ers dechrau'r pandemig, eu bod wedi llwyddo i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r bobl sy'n bwysig iddynt drwy dechnoleg rithwir a sgyrsiau dros y ffôn. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn hwyluso hyn ar gyfer y preswylwyr. Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni welsom unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnal. Cawsom gadarnhad gan y darparwr gwasanaeth bod y gweithgareddau sydd ar gael yn y cartref yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Byddai'n fuddiol adolygu cofnodion ac argaeledd y gweithgareddau i'r bobl yn rheolaidd, gan ymgynghori â'r preswylwyr. Mae'r cartref wedi bod ar gau i ymwelwyr oherwydd pandemig COVID-19, felly mae angen mwy ysgogiad a chymorth cymdeithasol/emosiynol ychwanegol ar y bobl gan weithwyr gofal. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn helpu'r bobl mewn modd caredig, gofalgar a chynnes, ac roedd y preswylwyr a'u perthnasau yn canmol y gofal y mae'r bobl yn ei gael.

Caiff y bobl eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n deall sut i'w cadw'n ddiogel rhan niwed. Gwnaethom siarad â'r gweithwyr gofal a ddangosodd eu bod yn gwybod sut i ddiogelu'r bobl. Gwnaethom adolygu'r polisi diogelu a gwelsom fod angen atgyfnerthu'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion rheoliadol. Ar ôl tynnu sylw'r unigolyn cyfrifol at y bylchau yn hyfforddiant diogelu'r gweithwyr gofal, cawsom gadarnhad yr aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith. Mae gan y gweithwyr gofal fynediad at ddigon o gyflenwadau o gyfarpar diogelu personol (PPE) a gwelsom fod y gweithwyr gofal yn defnyddio PPE yn briodol er mwyn lleihau'r risg o groesheintio. Mae gan y darparwr gwasanaeth fesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel, ond byddai adolygu'r polisi diogelu yn gwella hyn ymhellach.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Gwelsom fod llawer o welliannau amgylcheddol wedi cael eu gwneud i'r gwasanaeth a gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn lân Fodd bynnag, byddai rhai ardaloedd yn cael budd o waith cynnal a chadw pellach. Roedd angen diweddaru a gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr ystafell ymolchi i fyny'r grisiau. Gwelsom hefyd nad oedd y trefniadau cysgu ar gyfer gweithwyr gofal yn addas. Cawsom gadarnhad bod yr ystafell ymolchi yn cael ei diweddaru, a chawsom dystiolaeth hefyd fod y trefniadau cysgu sydd ar waith ar gyfer y gweithwyr gofal wedi cael eu hadolygu.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i sicrhau diogelwch y bobl. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson. Gwelsom nad oedd menig a ffedogau finyl tafladwy bob amser yn cael eu storio mewn ardaloedd sy'n gyfyngedig i weithwyr gofal yn unig. Cawsom gadarnhad yr aethpwyd i'r afael â'r mater o storio PPE ar unwaith. Gwnaethom nodi meysydd eraill lle y gellid gwella arferion rheoli heintiau a diogelwch. Ymatebodd y darparwr gwasanaeth yn rhagweithiol ac yn brydlon i'n hargymhellion a rhoddwyd mesurau ar waith i fynd i'r afael â meysydd yr oedd angen eu gwella. Byddai'n fuddiol cwblhau archwiliadau'n rheolaidd er mwyn asesu'r amgylchedd a bod cofnodion yn cael eu cadw er mwyn gwneud yn siŵr bod y mesurau sy'n ymwneud â sicrhau diogelwch y bobl yn gadarn.

## Arwain a Rheoli

Caiff y bobl eu cefnogi gan y gweithwyr gofal sydd wedi'u recriwtio'n ddiogel ac sy'n addas i'r rôl. Caiff y staff eu cyflogi gan gynnal y gwiriadau priodol er mwyn cadarnhau eu bod yn addas. Mae'r gweithwyr gofal yn cael budd o gyfarfodydd tîm a chylchlythyrau staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i'w gwaith. Gwelsom dystiolaeth fod sesiynau goruchwylio ffurfiol diwethaf y gweithwyr gofal wedi cael eu cwblhau yn ystod y tri mis diwethaf. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod y sesiynau goruchwylio yn cael eu cwblhau bob tri mis am nad oedd y cofnodion ar gael. Roedd y staff yn siarad yn gadarnhaol iawn am y cymorth roeddent yn ei gael gan y dirprwy reolwr: gwnaethant hefyd nodi bod yr unigolyn cyfrifol yn hawdd mynd ato. Gwnaethom nodi bylchau yn hyfforddiant y gweithwyr gofal, ac eir i'r afael â hwn yn rhagweithiol.  Byddai'r gwasanaeth yn cael budd o system i fonitro pan fydd angen hyfforddiant ar y staff a phan fydd angen cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarniadau'r gweithwyr gofal er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cwblhau'n hwyr. Mae'r dirprwy reolwr yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster gofynnol ar gyfer ei rôl. Ni welsom dystiolaeth bod hwn yn arwain at ganlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n byw yng ngwasanaeth Dol Awel nac ar gyfer y gweithwyr gofal. Dywedodd y dirprwy reolwr ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol, ac roedd y gweithwyr gofal yn canmol arweinyddiaeth a chefnogaeth y dirprwy reolwr.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth ac mae trefniadau ar waith i sicrhau bod ansawdd y gofal a'r cymorth yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoliadol ac mae wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal sy'n monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu'n briodol â chyrff perthnasol a chawsom adborth cadarnhaol gan weithiwr proffesiynol mewn perthynas â chyfathrebu ac ymateb y dirprwy reolwr. Mae'r bobl yn cael gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben a'r canllaw ysgrifenedig. Gwnaethom edrych ar y dogfennau a gwelsom eu bod yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn galluogi'r bobl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r canllaw ysgrifenedig ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn unol â'r rheoliadau. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith mewn perthynas â derbyniadau, diogelu, cwyno, meddyginiaeth, goruchwylio cyflogeion ac arfarniadau. Mae angen adolygu pob un o'r polisïau yn llawn er mwyn bodloni gofynion rheoliadol.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol** | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd y mae angen eu gwella** | |
|---|---|
| Byddai'n fuddiol petai'r cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a bod adolygiadau yn ystyried i ba raddau y mae'r bobl yn cyflawni eu canlyniadau dymunol. | Rheoliad 16 |
| Sicrhau bod y canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen. | Rheoliad 19 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob un o'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant craidd cyfredol sy’n briodol i'r gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni. | Rheoliad 36 (2) (d) |
| Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch yr unigolion yn cael eu nodi a'u lleihau cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. | Rheoliad 57 |
| Atgyfnerthu'r trefniadau dirprwyo rheolaeth ymhellach drwy barhau i gefnogi'r dirprwy reolwr i gwblhau'r cymhwyster rheoli perthnasol. | Rheoliad 72 |
| Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi'r trefniadau priodol ar waith er mwyn cadw polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol. | Rheoliad 79 |

Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad (diffyg cydymffurfio) gweithredu â blaenoriaeth y tro hwn. Mae hyn am nad oedd unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol na chanlyniadau gwael i'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/02/2021